Gwanwyn 2009

cyswllt teulu cymru
i deuluoedd gyda phlant anabl

mewn cyswllt

Cylchlythyr Cyswllt Teulu Cymru

Cymru

Swyddfa Lleol

Cyswllt Teulu Cymru,
33-35 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd, CF11 9HB
Ffôn: 029 2039 6624
Ffacs: 029 2039 6625
ebost: wales.office@cafamily.org.uk
Llinell Cymorth Di-Dal y DU
0808 808 3555

Y Cyfranwyr unigol sy'n gyfrifol am unrhyw syniadau ac awgrymiadau a welir yn y cylchlythyr hwn ac nid yw Cyswllt Teulu yn eu cefnogi o reidrwydd. Ni all Cyswllt Teulu dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gaiff eu crybwyll neu eu cynnwys gyda'r cylchlythyr hwn.

Drymiwr, Billy Cobham yn mwynhau creu cerddoriaeth efo plant yn ein gweithdu tymor yr Hydref.

Gyda phwy i gysylltu

Keith Bowen, Rheolwr Cymru
- unrhyw faterion yn ymwneud ag ymgyrchu a pholisi cenedlaethol
- Cysylltu gyda sefydliadau gwirfoddol eraill
- Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol

e-bost: keith.bowen@cafamily.org.uk
ffôn: 01792 390203

Katie Barrett-Goode, Swyddog Datblygu Grŵp ac Ymholiadau
- ymholiadau cyffredinol neu unigol yn ymwneud â phlentyn anabl
- datblygu grwpiau lleol
- taflenni gwybodaeth a chyhoeddiadau
- unrhyw beth i wneud â thaflen newyddion neu restr bostio Cyswllt Teulu Cymru

e-bost: katie.barrett-goode@cafamily.org.uk
ffôn: 029 2039 6624

Jill Bartlett, Swyddog Datblygu a Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd
- gweithdai ar gyfer rhieni
- dyddiau i'r teulu
- digwyddiadau a gweithgareddau
- Cefnogaeth unigol i deuluoedd yng Ngogledd Cymru

e-bost: jill.bartlett@cafamily.org.uk
ffôn: 01248 670965

Cynllun Cynrychiolwyr Gwirfoddol Ardal Leol yng Nghymru yn dod i ben

Rydan ni'n siomedig i gyhoeddi bod y cynllun hwn wedi dod i ben am y tro o ganlyniad i ddiffyg arian. Byddwn yn ceisio am arian yn y dyfodol er mwyn penodi mwy o wirfodddolwyr, ond yn y cyfamser, hoffem ddiolch i'r holl wirfoddolowyr sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi gweithio'n galed drostom am gymaint o flynyddoedd. Diolch!

Cylchlythyr Electroneg

Oherwydd diffyg arian penodol ar gyfer y cynllun hwn, rydym yn bwriadu lleihau ein gwasanaeth postio, gyda'r nod y dylai pawb dderbyn y cylchlythyr yn electroneg erbyn cychwyn 20110. Chaiff hyn ddim effaith ar yr wybodaeth a gewch chi ac fe fyddwch dal yn derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau Cyswllt Teulu. Yn ogystal ? hyn, byddwch yn derbyn diweddariadau rhwng cylchlythyrau.

Er mwyn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn danfonwch ebost o'ch cyfeiriad dewisedig gyda'r teitl "**CYLCHLYTHYR EBOST**" at **katie.barrett-goode@cafamily.org .uk**

Yng nghorff yr ebost, rhowch eich **ENW**, **CYFEIRIAD POST**, a'r **SIR** yr ydcyh yn byw ynddi.

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth hwn, ffoniwch Katie ar 029 2039 6624.

Gweithdai

Mae'n sbel o amser ers inni eich diwedddaru ar weithdai, a hynny'n rhannol gan fod parhad y prosiect wedi bod yn bur ansicr oherwydd ffactorau ariannol. Ond, yn ffodus, derbyniwyd arian gan y Sefydliad Waterloo ar yr unfed awr ar ddeg. Bydd hyn yn sicrhau swydd y Swydog Datblygu Gweithdai am 3 blynedd pellach.

Cafwyd rhai gweithdai poblogaidd iawn Hydref diwethaf. Yr uchafwbynt oedd y gweithdai drymio a gynhaliwyd gyda Billy Cobham yn Galeri, Caernarfon yng Ngogledd Cymru.

Yn garedig iawn., cynigodd Bill gynnal pedwar sesiwn drymio a gafodd eu mynychu gan bobl o bob oed. Cafodd y plant y cyfle i chwarae ochr yn ochr ă Bill Cobham a'r grwp Cubaidd Asere.

Gan fod gan y rhan fwyad o'r plant drafferthion lleferydd a iath a doedd gan y Cubaniaid ddim Cymareg n Saesneg, yr un ffordd o gyfathrebu oedd trwy swn ac ystumiau, ac fe weithiodd hyn yn dda iawn.

Roedd y synau a gynhyrchwyd yn wych gyda phawb yn rhoi o'u gorau. Diolch yn fawr i Billy Cobham a Galeri am ddarparu'r profiad bendigedig hwn ar gyfer y plant oedd yno.

Cafodd sawl gweithdy arall eu cynnal yng Nghaerdydd a Phontypridd ar Briffio a Rhywioldeb. Roedd cynulleidfa dda wedi dod ynghyd i bob un ac fe gafwyd adborth cadarnhaol iawn gyda llawer o chwerthin a rhannu ar hyd y daith.

Cynhaliwyd gweithdy cwsg yng Nghasnewydd ac fe fyddem yn hapus iawn i wneud hyn eto yn eich ardal. Os teimlwch bod angen hyn rhowch wybod i mi.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant cadair olwyn blynyddol yng Nglanllyn, Bala gyda theuluoedd yn teithio o bellteroedd o lefydd megis Abertawe i dderbyn yr hyfforddiant a mwynhau penwythnos llawn gweithgareddau hwyliog.

Mae dwy ffilm yn cael eu harddangos am ddim yn Theatr Colwyn, Bae Colwyn ar Fawrth 8ed a Galeri, Caernarfon ar Fawrth 15eg(ffilmiau i'w cadarnhau). Gobeithiwn gynnal rhagor o weithdai ar ewyllysiau ac ymddiriedolaethau yn ystod y flwyddyn. Rhowch wybod imi os credwch y bydd peth diddorddeb yn eich ardal chi.

Profiadau teuluoedd o'r Grant Adnoddau Anabl- diolch yn fawr!

Yn y cylchlythyr diwethaf, gwahoddwyd rheini i llenwi holiadur ar eu profiadau o'r broses Grant Adnoddau Anabl. Mae'r tim ymchwil yn hynod o ddiolchgar i'r 130 o rieini a ddychwelodd yr holiaduron hyn. Gwelwyd bod mwy o rieni yn derbyn grantiau ers diwedd y prawf moddion rheini yn 2005. ond tydi rheini ddal ddim yn derbyn digon o wybodaeth ynghylch y grant. Mae'r oedi mawr rhwng ymholiadau cychwynnol a chwblhau'r addasiadau hefyd yn broblem gyffredin iawn. Bydd yr adroddiad ymchwil ar gael cyn bo hir i'w lawrlwytho wefan Shelter Cymru a gwefan Cyswllt Teulu.

Byddwn cyn bo hir yn lawnsio'r adroddiad yn y Senedd- os hoffech ddod draw gallwch gofrestru eich diddordeb trwy gysyltu ă **Katie Barrett-Goode ar 02920 396624 neu e-bostio katie. barrett-goode@cafamily.org.uk.**

Arweiniad newydd o ran delio gyda bwlio: ar gyfer plant anabl

Mae Cyswllt Teulu wedi ymuno gyda Parentline Plus er mwyn cynhyrchu arweiniad newydd er mwyn delio â bwlio ar gyfer rhieni plant anabl.

Mae'r arweiniad hwn yn llawn o wybodaeth a chynghorion ynghylch deall pryd y mae bwlian yn digwydd, a'r dulliau a'r strategaethau y gallwch chi fel rhiant eu rhoi ar waith , a hawliau eich plentyn. Cafodd yr arweiniad hwn ei ddatblygu o ystod o straeon a phrofiadau a adroddwyd i ni gan rieni plant anabl gafodd eu heffeithio gan fwlian. Mae eu cynghorion â'u straeon hwy wedi eu cynnwys trwy'r arweiniad.

Pe baech chi am dderbyn copi o'r arweiniad neu am drafod bwlian hefo rhywun ffoniwch llinell gymorth rhad ac am ddim Cyswllt Teulu 0808 808 3555

Fel arall, gallwch ei lawrlwytho o wefan Cyswllt Teulu ar **http://www.cafamily.org.uk/bullying.pdf**.

Cefnogaeth Grŵp gan Gyswllt Teulu

Ydach chi'n rhedeg neu'n meddwl dechrau grŵp cefnogi rhieni? Os felly, gall Cyswllt Teulu gynnig cefnogaeth mewn sawl ffordd.

Yn y lle cyntaf, gallwch gysylltu a fi, Katie Barrett-Goode, swyddog Ymholiadau a Datblygu grŵp ar gyfer gwybodaeth a chyngor ynghylch pob mater yn ymwneud ă chychwyn, rhedeg a datblygu grŵp cefnogi rheini lleol Beth bynnag yw eich ymholiad, ffoniwch y swyddfa ac fe wnai bopeth medra'i i'ch helpu(manylion cyswllt ar y dudalen blaen mewnol)

Hefyd, mae'r Pecyn Gweithredu Grŵp yn cynnwys nifer o bynciau allai fod o ddiddordeb i grwpiau cefnogi rhieni lleol a chenedlaethol. Gellid lawrlwytho pob un o'r rhain yn rhad ac am ddim o wefan Cyswllt Teulu.

http://www.cafamily.org.uk/families/supportinggroups/groupactionpack.html

Os mai copïau papur fyddai orau gennych, danfonwch eich enw, cyfeiriad, a'r teitlau yr ydach am eu derbyn, ac fe bostiaf hwy atach chwi.

Ar gyfer Grwpiau Lleol
- Cychwyn grŵp rhieni lleol
- Cynnal cyfarfod agored
- Denu a chadw aelodau
- Ymgyrchu lleol
- Grwpiau cefnogi gweithwyr proffesiynol a chefnogi rheini

Ar gyfer Grwpiau Lleol a Chenedlaethol
- Cofrestru elusennau
- Rôl ymddiriedolwyr
- Taflenni
- Cyhoeddusrwydd
- Siarad â'r cyfryngau
- Ysgrifennu datganiad i'r wasg
- Cefnogaeth gan noddwyr a s**?**r
- Siarad cyhoeddus ar gyfer rheini
- Cyfarfodydd effeithiol
- Cyrraedd Rheini Anabl
- Cyrraedd Rheini Du a Rheini o Gefndiroedd Lleiafrifol
- Cyrraedd Tadau
- Gwarchod data
- Gwefannau
- Cymunedau rhithiol
- Cyfarfodydd trwy gynhadledda ffôn
- Codi Arian
- Cylchlythyr
- Cyflogi gweithiwr am dâl
- Gwarchod Plant

Cyswllt Teulu ar Facebook

Beth ydi Facebook?

Er bod llawer ohonom yn mwynhau dod ynghyd dros baned o de er mwyn trafod a rhannu ymhlith ffrindiau, mae'r we yn cynnig modd amgen ar gyfer gwneud hyn. Ac fe allay hyn fod yn hynod o bwysig os ydych yn byw mewn rhywle anghysbell neu'n ei chael hi'n anodd i fynd allan o'r tŷ.

Drwy gyfathrebu ar-lein, mae miliynau o bobl wedi creu "rhwydweithiau cymdeithasol" sydd yn elfen gynyddol bwysig o ran annog gweithredu cymdeithasol a chynnyddu ymwybyddiaeth am faterion pwysig, gan gynwys materion efallai na fyddai'n cael sylw yn y papurau neu deledu. Facebook ydi un o'r safleoedd hyn

Sut mae Cyswllt Teulu'n rhan o hyn ?
Mae Cyswllt Teulu DU newydd lawnsio eu grŵp a'u proffil eu hunain ar ystod o wefannau rhwydweithio cynmdeithasol, a'r un amylcaf o'r rhain ar hyn o bryd yw Facebook. Hoffem helpu grwpiau rhieni i wneud yr un fath.

Facebook

Sut ydw i'n cofrestru?
Does dim cost wrth gofrestru a'r unig beth sydd ei angen arnoch ydi cyfeiriad e-bost dilys. Ewch ar y wefan a dilynwch y cyfarwyddiadau cofrestru cam wrth gam.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

Mae Facebook yn adnodd defnyddiol ar gyfer teuluoedd plant anabl a grwpiau cefnogi, nid dim ond yn y DU, ond yn fwy penodol yng Nghymru.

Cefnogaeth Unigol
Wrth gofrestru fel unigolyn a dod yn "gefnogwr" i Cyswllt Teulu Cymru, gallwch ddod i wybod am grwpiau lleol, digwyddiadau a gweithgaredau yn eich ardal, cael hyd i rieini tebyg i drafod â hwy a phostio negeseuon a gyfer rheini eraill. Gall y negeseuoun hyn fod ar ffurf rhannu eich profiadau eich hun neu ofyn am gefnogaeth a chyngor gan eraill.

Grwpiau Lleol
Os ydach chi'n rhedeg grŵp cefnogi lleol, mae Facebook yn le rhagorol at gyfer hyrwyddo eich grŵp. Gallwch roi gwybod i bobl am natur gwaith eich grŵp a'r digwyddiadau yr ydach yn eu cynnal ynghyd â llawer mwy hefyd.

Gwybodaeth am Gyswllt Teulu
Byddwn yn defnyddio Facebook i roi gwybod ichi am ein gwaith diweddaraf gyda gweithdai a digwyddiadau, Ymgyrchoedd a gwaith polisi Cylchlythyrau a chyhoeddiadau.

Dod yn gefnogwr
Wedi ichi gofrestru ar Facebook, fe allwch chwilio am Cyswllt Teulu Cymru yn y bar chwilio ar yr ochr dde ar ran ucha'r sgrin. Yma gallwch ddod yn gefnogwr ar gyfer adran **Cymru** o'r safle, a phostio negeseuon, hysbysebu eich grwp a chyfarfod rheini eraill; ayb.

Yn ei fabandod y mae'r prosiect ar hyn o bryd, a byddem yn eich annog i gofrestru ac i wneud y mwyaf o'r adnodd hwn fudd yn ein galluogi i greu cysylltiadau hyd yn oed yn welll â chi

"Hefyd, mae gan Cyswllt Teulu tudalennau ar y gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a ni."

Second Life

Twitter

YouTube



Am fwy o wybodaeth cysylltwch a katie.barrett-goode@cafamily.org.uk

Llawlyfr Anghenion Arbennig

Mae llyfrau Need2Know yn cyhoeddi llyfrau am sefyllfaoedd bywyd ac am anawsterau. Eu cyhoeddiad diweddaraf yw ADHD- Yr Arweiniad Hanfodol. Mae'r llyfr hwn yn hawdd iawn i'w ddarllen ac mae'n rhoi arweiniad i rieni, athrawon a gofalwyr trwy'r broses o helpu plentyn gyda'r broblem hon; o sylwi ar y broblem yn y lle cyntaf i dderbyn deiagnosis, triniaeth a chael hyd i gefnogaeth. Mae'n lyfr ar gyfer pob oedran, o blant i oedolion.

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth cofiwch gysylltu â mi. Mae'n bosib hefyd y carech weld rhai o'n teitlau eraill Dyslecsia a Thraffethion Dysgu Eraill; Bwlian-Arweiniad I Rieni. A'r diweddaraf(a gafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref) Anghenion Addysgol Arbennig-Arweiniad ar gyfer Rheini.

Mae'n llyfrau ni, sy'n costio £8.99, ar gael o Need2Know drwy ffonio **01733 898103** neu ebostio **sales@n2kbooks.com**. Mae manylion am ADHD a'n teitlau eraill ar gael ar ein gwefan: **www.need2knowbooks.co.uk**. Gellid hefyd prynu'r llyfrau drwy siopau llyfrau da a thrwy Amazon.

Mae Cyswllt Gofalwyr

Mae Cyswllt Gofalwyr yn wasanaeth gan Gyngor Dinas Casnewydd a Sefydliadau Gwirfoddol Gwent gyda chymorth Grant Gofalwyr a roir gan Gynulliad Cymru.

Mae'n ganolfan yn cael ei rhedeg gan ddau weithiwr cyflogedig a thîm o wirfoddolwyr, mae'r ganolfan ar agor i unrhyw un dros 18 sydd yn byw yng Nghasnewydd, ac yn gofalu neu'n helpu i ofalu am rywun. Gallwch alw heibio heb fod angen apwyntiad. Mae'r tîm yn fodlon helpu hefo unrhyw broblem sydd yn bwysig ichi fel gofalwr neu sy'n cynnwys eich rôl gofalu. Gall hyn fod ar ffurf gwybodaeth neu gynnig clust i wrando.

Maent yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer gofalwyr Casnewydd ar nifer helaeth o bynciau gan gynnwys Gwasanaethau Gofalwyr, Asesiadau Gofalwyr, Bud-daliadau, Tai, Cyfnod Hoe, Pensiynau, Cymorthyddion/ Addasiadau, Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol.

Hefyd yn Cyswllt Gofalwyr byddent yn

- Rhwydweithio hefo pobl broffesiynol ac asiantaethau sy'n gweithio gyda gofalwyr neu mewn cysylltiad â gofalwyr.
- Rhedeg eu Grŵp Cefnogi Cyswllt Gofalwyr, ble y cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd.
- Rhedeg syrjeris mewn Canolfannau Meddygon Teulu ar draws Casnewydd
- Rhedeg digwyddiadau yn y ganolfan ar sail misol gyda gwesteion o asiantaethau eraill.
- Rheoli digwyddiadau yng nghylch Casnewydd ar wythnos Gofalwyr a Diwrnod Hawliau Gofalwyr

Newport Market, Stryd Fawr, Casnewydd, De Cymru
NP20 1DD
Ffon: 01633 258376
Cyfeiriad e-bost: carers.contact@newport.gov.uk

Prosiect "Fy newisiadau i"

FEDRWCH CHI HELPU?
Ydach chi dros 16 ac yn riant i blentyn sydd gofynion iehyd cymhleth?
Ydach chi'n byw yn y DU?

Fedrwch chi ein helpu drwy lenwi'r llyfryn ar-lein ynghylch y mathau o ofal a gwasnaethau sydd orau gennych chi a ble yr hoffech dderbyn eich gofal mewn gwahanol sefyllfaoedd?

Os medrwch wneud hyn

Ewch at:
www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/research/mychoices to:

Darganfod mwy o wybodaeth
Llenwi ffurflen gydsynio
Llenwi'r lyfryn ar lein neu lawrlwytho fersiwn bapur.
Rhoi gwybod inni beth ydach chi'n feddwl o'r llyfryn?

Neu, os ydach chi am siarad gydag aelod o'r tim i wybod mwy, cysylltwch â:
Nyree Hulme
Canolfan ar gyfer Ymchwil Iechyd, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor, Ffordd Ffriddoedd Bangor, LL57 2EF

Ffôn. 01248 383150
Ebost. n.d.hulme@bangor.ac.uk

Prosiect Helpu Plentyn Iach

Rwy'n gweithio ar gyfer Elusen Cenedlaethol Plant sal Plentyniach, ac mae gennym brosiect o'r enw Dwylo Defnyddiol ble ein bod yn trefnu i dimau o wirfoddolwyr fynd i dai plant sâl a dros un neu ddau dydd gwneud eu stafell wely neu ardd I'w wneud o'n ymarferol a bra far gyfer eu cyflwr a phosib, gan nad oes gan eu teuluoedd yr amser na'r modd yn aml i'w wneud. Gan fydd gennych gysylltiadau yn eich ardal hefo plant sâl trwy eu gweithwyr teulu efallai y gallwch gofio amdanom os gwelwch angen yn rhywle. Mae yna nifer o gwmnïau wedi datgan diddordeb mewn helpu ac fe rydan ni angen eu paru gyda'r teuluoedd hyn.

Mae modd cyflwyno ceisiadau ar lein ar ein gwefan **www.wellchild.org.uk** ac rwyf wedi atodi trosolwg o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Byddwn hefyd yn hapus iawn i ddanfon rhai o'n taflenni os ydi pobl am wybod mwy amdanom. Cysylltwch â mi os oes angen rhagor o fanylion.

Chwaraeon yn Abertawe

Mae clwb pelfasged cadair olwyn Storm Aberawte yn cyfarfod pob nos Fercher rhwng 7 ac 8 yng Ngholeg Abertawe. £2 y person yw'r gost ac mae cadeiriau olwyn chwaraeon ar gael. £2 yw'r gost.

Mae'r clwb wedi ei sefydlu mewn partneriaeth gyda Storm Aberawe, Cyngor Aberswe a Ffederasiwn Chwaraeon Anabl Cymru fel bo'r holl hyfforddwyr wedi'u gwirio gan y CRB.

Diwrnod Dysgu Syrffio
Mae Ffederasiwn Chwaraeon Anabl Cymru, mewn partneriaeth hefo Cyngor Abertawe, y Gwasanaeth Ieuenctid a GSD Surf yn cynllunio diwrnod Dysgu Syrffio i blant sydd ar y Sbectrwm Awtistaidd a'u teuluoedd ar draeth Caswell ym mis Medi 2009. Bydd y diwrnod yn RHAD AC AM DDIM ac fe fydd yn cynnwys gwersi syrffio mewn grwpiau bychain a gweithgareddau ar y traeth.

Mae'n ofynnol bod pob person sy'n cymryd rhan yn gallu nofio isafswm o 25m. er mwyn asesu hynny, byddwn yn cynnig nifer o sesiynau RHAD AC AM DDIM yn y LC2 gyda hyfforddwyr o'r ysgol syrffio GSD. Mae'r sesiynau hyn wedi eu cynllunio ar gyfer Pasg y flwyddyn nesaf a'u pwrpas yw asesu gallu nofio y cyfarnogwyr. NID gwersi nofio fydd y rhain. Dylai'r cyfranogwyr fod rhwng 8 ac 16 mlwydd oed.

Os oes gennych chi ddiddordeb derbyn rhagor o wybodaeth am y sesiynau hyn ac archebu lle ar gyfer eich plentyn, ffoniwch.

Nicola Rogers
Swyddog Datblygu Chwaraeon ar gyfer yr Anabl Abertawe
01792 635460
Nicola.Rogers@swansea.gov.uk

Mae 21 Plus

Mae 21 Plus yn grŵp ar gyfer teuluoedd sydd â phlentyn hefo Syndrom Down's.

Rydym yn grŵp o rieni sydd yn cyfarfod i gyfnewid gwybodaeth a rhannu hwyl a threialon magui Plentyn Down's.

Os oes gennych ddiddordeb ac yn byw ym Mynwy neu'r cyffiniau, Forest of Dean neu'r ardal, yna cysylltwch â Victoria: (**tel:** 01291 691 472), **ebost:** vic.andbry@virgin.net neu Katharina (**tel:** 01600 711 963), **email:** katharinabarker@gmail.com am fwy o fanylion.

Ffurflen Archebu Cyswllt Teulu

Enw _____ Mudiad (os ym mherthnasol) _____

Ebost _____ Sir _____

Fe hoffwn ni dderbyn fersiwn trydannol o'r cylchlythyr trwy ebost ☐

Cyfeiriad _____

Côd post _____ Rhif ffôn _____

Mae copiau cyntaf o'r tafenni ffeithiau i gyd yn di-dal, er y codir tâl o 50 ceiniog yr un am gopïau ychwanegol oni bai y datgenir yn wahanol)

Fe hoffwn gael fy nghynnwys ar eich rhestr bostio ☐

Y mae yna amryw o daflenni gwybodaeth yn y Gymraeg ar gael ar ein gwefan www.cafamily.org.uk

Pan fo ar eich plentyn anghenion ychwanegol **(£1.00 am bob copi ychwanegol)**	
Pecyn Gwybodaeth Budd-daliadau a Credydau Treth (yn cynnwys nifer o daflenni feithiau)	
Pecyn Gwybodath Teulu – brodyr a chwiorydd – neiniau a teidiau – tadau	
Cyflwr Genetig yn y Teulu	
Deall Ymddygiad Eich Plentyn	
Gwyliau, Chwarae a Hamdden	
Byw heb ddiagnosis	
Pontio	
Anghenion Addysgol Arbennig – Cymru	
Lwfans Cynhaliaeth Addysg	
Y GIG a gofalu am blentyn anabl	
Ynglŷn â theuluoedd sydd â phlentyn anabl	
Canfod a thalu am ofal plant	
Gweithio	
Cymhorthion, Cyfarpar ac Addasiadau	
Gwasaneathau plant anabl yn Lloegr a Cymru	
Asesiadau yng Nghymru a Lloegr	
Perthnasau a gofalu am blentyn anabl	
Ymdrin â Dyled – Cymru a Lloegr	
Arweiniad y Gaeaf : cymorth gyda biliau tanwydd a chadw'n gynnes	
Cael taliadau uniongyrchol tuag at eich plentyn anabl(Lloegr a Chymru)	
Arian pan fo eich plentyn yn cyrraedd 16	
Arweiniad o ran delio gyda bwlio: ar gyfer plant anabl	
Cysgu	
Bwydo a Bwyta	
Hyfforddiant pot/toiled	
Addysg Rhyw a Pherthnasau ar gyfer pobl ifanc sydd ag anableddau corfforol: llyfryn ar gyfer athrawon	
Tyfu'n oedolyn, rhyw a pherthnasau: llyfryn i gymorth rhieni plant anabl ieuainc	
Tyfu'n oedolyn, rhyw a pherthnasau: llyfryn ar gyfer pobl anabl ieuainc	
Taflenni wybodaeth cyffredinol Cyswllt Teulu Cymru – Gweithdai – Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd ayyb.	
Taflen wybodaeth: Canfod Gwybodaeth Feddygol ar y Rhyngrwyd	
Ffurflen archebu Cyfeirlyfr Cyswllt Teulu	

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i Cyswllt Teulu Cymru, 33-35 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF10 5EB neu ffoniwch inni ar 029 2039 6624 neu anfonwch e-bost at katie.barrett-goode@cafamily.org.uk